

Dyddiad	Lleoliad	Yn bresennol	Cwestiwn	Ymateb
13/03/12	Ysgol Uwchradd Treffynnon	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Treffynnon	Pam mae lleoedd dros ben yn Ysgol Uwchradd Treffynnon? Am ba resymau mae plant yn mynd i ysgolion eraill?	Y rhieni sydd â'r dewis yn y pen draw, gan fod ganddynt rwydd hynt i ddewis pa ysgol maent am i'w plant ei mynychu. Mae safonau Ysgol Uwchradd Treffynnon wedi bod yn dda yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond, yn anffodus, gall rhieni/gofalwyr gymryd yn erbyn ysgol ar sail clebran a sïon. Gall amgylchedd dysgu newydd ac enw da sy'n gwella helpu i newid argraffiadau o'r fath a chreu delwedd fwy cadarnhaol o'r ysgol.
13/03/12	Ysgol Uwchradd Treffynnon	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Treffynnon	Beth fydd yn digwydd os yw'r ysgol yn rhy fach i ymdopi â rhagor o alw?	Mae rhagamcanion disgyblion yn ystyried sawl ffactor gan gynnwys cyfraddau genedigaeth yn y dyfodol a thai newydd sy'n cael eu hadeiladu. Mae'r ffigurau'n dangos bydd y nifer yn gostwng dros y blynyddoedd nesaf ond gallent godi erbyn 2019. Gall unrhyw adeiladau newydd gynnig lle ychwanegol (10%) ac mae modd eu hehangu'n llawer haws gan fod eu dyluniad yn fodern.
13/03/12	Ysgol Uwchradd Treffynnon	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Treffynnon	Fedrwch chi egluro sut byddwch yn cadw'r safleoedd cynradd ac uwchradd ar wahân?	Mae eu gwahanu'n hanfodol ond bydd rhai cyfleusterau'n cael eu rhannu. Gydag adeilad newydd, bydd modd gwahanu'n llawer haws. Byddai'r lleoedd chwarae a'r lleoedd cwricwlwm cynradd ar wahân i'r lleoedd uwchradd a bydd mynedfeydd ar wahân yn cael eu dylunio ar eu cyfer. Hwyrach y bydd hefyd amserau chwarae, gwisgoedd ysgol gwahanol, ac ati.
13/03/12	Ysgol Uwchradd Treffynnon	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Treffynnon	Beth yw'r amserlen ar gyfer cael adeilad newydd i'r ysgol?	Gyda lwc, bydd dewisiadau mwy penodol dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn erbyn diwedd yr haf, ond mae'n anodd rhoi amserlen gywir heb gynnig pendant. Bydd arian Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gael dros gyfnod o 7 mlynedd o 2014. Nid ydym yn gwybod eto pryd bydd yr arian ar gael i Gyngor Sir y Fflint.

				<p>Fodd bynnag, dilyniant mewn addysg sydd bwysicaf, yn enwedig i ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau. Byddai adeilad newydd ar safle cyfagos er mwyn peidio ag amharu ar addysg gyfredol.</p> <p>2014 fyddai'r adeg gynharaf y gallai gwaith adeiladu ddechrau ac mae'r cyfnod cynllunio'n cymryd tua blwyddyn ar gyfartaledd a'r gwaith adeiladu tua 2 flynedd.</p>
13/03/12	Ysgol Uwchradd Treffynnon	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Treffynnon	Cytuno bod angen ysgol newydd ar Dreffynnon ond ni hoffir y syniad o gael ysgol heb chweched dosbarth.	<p>Ceir rhai amodau sy'n gysylltiedig ag ariannu addysg ôl-16. Rhaid i chweched dosbarth fod yn hyfyw a rhaid cael nifer digonol o ddisgyblion a chyrsgiau ar gael. Hwyrach y bydd trefniadau ariannu ôl-16 yn newid yn y dyfodol ac nid ydym yn gwybod beth sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Bydd y drefn ddysgu hefyd yn wahanol yn y dyfodol oherwydd bydd angen llawer mwy o gyfleusterau arbenigol ar gyfer pynciau galwedigaethol gan olygu bydd angen ystyried pob dewis.</p> <p>Diben y digwyddiadau ymgynghori yw cael barn wybodus y gymuned leol.</p>
13/03/12	Ysgol Uwchradd Treffynnon	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Treffynnon	Pam cafodd yr awdurdod wared ar 'Ddalgylchoedd'?	Cafodd hyn ei wneud yn ystod proses Rheoli Ysgolion yn Lleol ac i alluogi pobl i ddewis, sy'n hawl cyfreithiol.
13/03/12	Ysgol Uwchradd Treffynnon	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Treffynnon	A yw pob ardal yn yr adolygiad yn cystadlu am yr un arian?	Mae arian Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gael ar gyfer Treffynnon ond nid yw ar gael ar gyfer Buckley Elfed. Bydd arian y Cyngor yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer meysydd eraill ar ddiwedd yr ymgynghoriad.

				Mae'r arian yn cynnwys lwfans ar gyfer dodrefn a rhwydweithiau TG.
13/03/12	Ysgol Uwchradd Treffynnon	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Treffynnon	Sut bydd yr adeilad newydd yn effeithio ar y maes chwaraeon?	Bydd y safle cyfredol yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer chwaraeon a byddai angen ystyried ôl-troed gwirioneddol yr adeilad newydd yn ystod y cyfnod cynllunio.
13/03/12	Ysgol Uwchradd Treffynnon	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Treffynnon	Roedd erthygl yn y wasg am ddefnyddio'r lleoedd sydd dros ben mewn ysgolion at ddibenion masnachol. A yw hyn yn hyfyw?	Gallai hyn gael ei ystyried os oes gwrthwynebiad i ddewisiadau eraill.
13/03/12	Ysgol Uwchradd Treffynnon	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Treffynnon	Gwastraff arian yw adeiladu ysgol newydd! Mae gan yr ysgol bresennol yr holl gyfleusterau.	Gyda lwc, byddai'r ysgol newydd yn ail-ddenu disgyblion ar ôl ei hail-lansio. Mae'n anodd rheoli'r gwres yn yr ysgol gyfredol ac nid yw'r acwstig yn dda. Rhaid ystyried pa mor addas yw adeilad yr ysgol ar gyfer anghenion addysg y dyfodol.
13/03/12	Ysgol Uwchradd Treffynnon	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Treffynnon	Anfonais lythyr am yr ymgynghoriad diwethaf ond ni chefais ymateb.	Gan fod nifer sylweddol o lythyrau wedi'u hanfon, nid oeddent yn cael eu hateb oni bai eu bod yn gofyn cwestiynau penodol. Byddwn yn cydnabod eich gohebiaeth pe byddech yn anfon neges e-bost/llythyr ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.
13/03/12	Ysgol Uwchradd Treffynnon	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Uwchradd Treffynnon	Beth fydd yn digwydd i safleoedd Ysgol y Fron ac Ysgol Perth y Terfyn os ydych yn penderfynu cyfuno?	Nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd, ond byddai trigolion lleol yn cael gwybod am unrhyw geisiadau cynllunio.
14/03/12	Ysgol Iau Ysgol y Fron	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol y Fron/Ysgol Perth y Terfyn	Beth fydd yn digwydd i Opsiwn 2 os oes rhaid i blant barhau â'u haddysg nes eu bod yn 18 oed?	Mae'r gyfraith yn Lloegr yn wahanol i'r un yng Nghymru. Mae 97% o ddisgyblion Sir y Fflint yn parhau â'u haddysg ar hyn o bryd, felly bychan iawn fyddai effaith newid o'r fath beth bynnag.
14/03/12	Ysgol Iau	Rhieni/Gofalwyr	Os bydd Opsiwn 1 yn cael ei ddewis, beth	Ni fyddai'r opsiwn hwn yn achosi unrhyw newid i'r

	Ysgol y Fron	Disgyblion Ysgol y Fron/Ysgol Perth y Terfyn	fyddai hynny'n ei olygu i'w ddwy ysgol gynradd?	ddwy ysgol gynradd. Fodd bynnag, cyfuno ysgolion babanod a chynradd lle bo modd yw polisi'r cyngor sir. Byddai ymgynghoriad ar wahân yn cael ei gynnal ar gyfer cam o'r fath.
14/03/12	Ysgol Iau Ysgol y Fron	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol y Fron/Ysgol Perth y Terfyn	A allech gyfuno Ysgol y Fron a Pherth y Terfyn a'u cadw ar yr un safleoedd?	Gallwn – mae safleoedd ar wahân yn gweithio ac mae gennym ysgol ar fwy nag un safle ar hyn o bryd ym Mynydd Isa. Fodd bynnag, nid yw'r ysgolion wedi'u hadeiladu at y diben ac ni fyddai hynny'n cynnig rhagor o leoedd allanol.
14/03/12	Ysgol Iau Ysgol y Fron	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol y Fron/Ysgol Perth y Terfyn	Beth fydd yn digwydd i Glwb Ar Ôl Ysgol/Clwb Gwyliau'r ysgolion cynradd? A fyddai'r rhain ar gael yn yr ysgol newydd?	Byddem eisiau gwella cyfleusterau cymunedol, gan gynnwys y clybiau hyn.
14/03/12	Ysgol Iau Ysgol y Fron	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol y Fron/Ysgol Perth y Terfyn	Pe byddech yn dewis yr 2il Opsiwn, beth fyddai'n digwydd i ddisgyblion y chweched dosbarth?	Mae cynnig wedi'i gyflwyno i greu canolfan chweched dosbarth yng Nghei Connah fydd yn cynnig cwricwlwm ehangach.
14/03/12	Ysgol Iau Ysgol y Fron	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol y Fron/Ysgol Perth y Terfyn	A fydd disgyblion rhwng 16 a 18 oed yn cael eu diogelu wrth astudio ar gyfer TGAU/Lefel Uwch?	Bydd dilyniant addysg y disgyblion yn cael ei warantu ac mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i achosi cyn lleied o aflonyddwch â phosibl.
14/03/12	Ysgol Iau Ysgol y Fron	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol y Fron/Ysgol Perth y Terfyn	Beth fydd yn digwydd i safle Ysgol y Fron/Perth y Terfyn pe byddem yn symud i ysgol newydd?	Bydd y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes yn datgan nad oes diben addysgol i'r adeilad bellach. Bydd yr adeilad wedyn yn cael ei drosglwyddo i'r ganolfan fel asedau corfforaethol a chaiff penderfyniad ei wneud am sut i ddefnyddio'r safle yn y dyfodol. Gall y cyngor sir benderfynu ei ddefnyddio at ddiben arall neu ei werthu.
19/03/12	Ysgol Uwchradd	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion	Pam nad yw trigolion wedi cael gwybod am y cyfarfodydd ymgynghori hyn?	Mae'r ymgynghoriadau hyn yn rhai hynod anffurfiol ar hyn o bryd. Byddwn yn hysbysu trigolion pan

	Treffynnon	Ysgol Consortiwm Treffynnon		fyddwn yn cymeradwyo'r cam cynllunio. Cafodd pob digwyddiad ei hysbysebu yn y wasg leol ac ar ein gwefan.
19/03/12	Ysgol Uwchradd Treffynnon	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Consortiwm Treffynnon	Pennaeth Ysgol Gynradd Brynffordd – A oes modd gwneud unrhyw beth i sicrhau rhieni Ysgol Gynradd Brynffordd nad yw'r ysgol hon yn rhan o'r adolygiad?	Nid yw Ysgol Gynradd Brynffordd yn rhan o'r adolygiad. Yr unig reswm pam mae rhieni Brynffordd wedi'u hysbysu yw oherwydd y gallai disgyblion Brynffordd fynd i Ysgol Uwchradd Treffynnon yn y dyfodol. Bydd Ffederasiwn y Penaethiaid Cynradd yn cynnal trafodaeth am sut gallem gyfleu'r neges hon.
19/03/12	Ysgol Uwchradd Treffynnon	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Consortiwm Treffynnon	Ydy Ysgol y Fron wedi'i rhestru, a beth am lochesi bomiau?	Byddwn yn gwirio hyn gyda CADW.
19/03/12	Ysgol Uwchradd Treffynnon	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Consortiwm Treffynnon	Os bydd Ysgol Uwchradd Treffynnon yn mynd yn ysgol 11-16, a fydd disgyblion yn cael cludiant ar gyfer addysg Ôl-16?	Byddant. Bydd cludiant ar gael ar gyfer addysg Ôl-16 yn unol â'r polisi cyfredol.
19/03/12	Ysgol Uwchradd Treffynnon	Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Consortiwm Treffynnon	A fydd gan Ysgol Uwchradd Treffynnon ragor o arian ar gyfer cynnal a chadw?	Mae rhestr o dasgau cynnal a chadw'n cael eu cyflawni. Bydd hyn yn parhau ac yn cynnwys gwaith hanfodol.